# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Seren Fach

Cylch Meithrin Seren Fach
Dyffryn Road
Rhondda Cynon Taff
CF45 4DA

Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Seren Fach

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Seren Fach |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Claire Jones |
| Person â gofal | Hannah Graham a Donna Davies |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Gwener 09:00 – 17:00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 09/07/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 08/11/2016 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 18/03/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Gwella'r cyfleoedd i blant symud rhwng yr ystafelloedd yn annibynnol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf o blant yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rhyngweithio'n dda gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn awyddus i siarad ag oedolion ac mae bron bob un ohonynt yn hapus wrth gydweithio gyda'i gilydd. Mae rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n hyderus. Er enghraifft, maent yn dweud os ydynt yn hapus neu'n drist wrth hunan gofrestri yn ddyddiol.

Mae rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â phwy a beth yr hoffent ei chwarae. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn symud rhwng gweithgareddau o fewn yr ystafelloedd yn hyderus. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddewis rhydd i fynd rhwng ystafelloedd fel yr hoffent. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dyfalbarhad yn eu chwarae a'u dysgu ac maent yn chwarae gydag adnoddau sy'n eu diddori am gyfnodau hir.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yn hapus, llawn bywyd ac yn barod i chwarae a dysgu. Maent yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall gweithdrefnau'r lleoliad ac yn gwybod ar ôl hunan gofrestri, eu bod yn mynd i ymuno â sesiwn meddylgarwch.

Mae rhan fwyaf o blant yn deall ac yn cadw at reolau ymddygiad y lleoliad yn dda. Mae bron bob plentyn yn cyfathrebu'n gwrtais gyda phlant eraill, ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn rhannu adnoddau gyda chymorth ac anogaeth oedolyn. Maent yn dysgu sut i aros yn amyneddgar, er enghraifft, wrth aros i gael tro ar y beiciau. Mae bron bob plentyn

yn cyd-chwarae'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd wrth gymdeithasu o gwmpas y lleoliad.

Mae gan y rhan fwyaf o blant medrau annibynnol da. Maent yn golchi eu dwylo yn effeithiol ac yn defnyddio'r tŷ bach heb gymorth. Yn ogystal, maent yn rhoi menyn ar eu crympet ac yn arllwys llaeth a dŵr eu hunain yn ystod amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol. Maent yn ymfalchïo bod lluniau ohonynt yn yr ardaloedd chwarae a lluniau ohonynt fel babanod yn cael eu harddangos ar draws y lleoliad. Mae hwn yn creu naws a theimlad o hunanwerth a pherthyn ymysg y plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu. Maent yn ddysgwyr annibynnol a chwilfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol gan ddewis llyfrau yn annibynnol. Maent yn pwyntio at y lluniau a dweud stori eu hunan neu'n canu cân i gyd fynd gyda'r llyfr. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus yn unol â'u cam datblygiad. Maent yn defnyddio pensiliau, sialc a phaent yn hyderus i greu marciau wrth ddathlu diwrnod Sant Padrig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llafar. Maent yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, er enghraifft i drafod y tywydd, i ateb y gofrestr ac wrth drafod eu teimladau. Mae bron bob un o'r plant yn mwynhau canu caneuon a rhigymau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u datblygiad llafar. Mae gan y rhan fwyaf o blant medrau gwrando da, sydd yn amlwg pan maent yn gwneud sesiynau meddylgarwch.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth gyfri'r nifer o blant yn bresennol neu wrth osod ceiniogau yn y gist drysor. Maent yn datblygu cysyniadau mathemategol yn llwyddiannus wrth chwarae yn y dŵr a thywod, er enghraifft wrth drafod offer llawn a gwag. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn ymdrin ag offer bach yn fedrus wrth ddefnyddio cyllell i daenu menyn, neu lwy i weini grawnwin amser byrbryd. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol mawr yn gymwys wrth fanteisio ar y cyfleoedd niferus sydd ar gael iddynt yn yr ardal fewnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau digidol yn foddhaol. Maent yn dewis caneuon ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol yn llwyddiannus ac yn dod o hyd i wrthrychau metel gan ddefnyddio synhwyrydd metel. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus, er enghraifft wrth ddawnsio neu chwarae offerynnau taro. Maent yn dewis paent a gliter ar gyfer creu addurniadau unigryw. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ystyried sut i ddatrys problemau ac yn dyfalbarhau â thasg.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae ymarferwyr yn dilyn systemau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth da iawn o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Maent yn cadw cofnodion am bryderon, damweiniau a digwyddiadau'n gydwybodol. Mae hyfforddiant yr holl ymarferwyr ynglŷn ag amddiffyn plant yn gyfredol ac yn ddefnyddiol wrth drafod unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol gan yr ymarferwyr, sy'n sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r prosesau i'w dilyn. Mae'r gweithdrefnau a'r arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol yn gwbl annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithiadau'r plant yn effeithiol, ac mae perthynas hyfryd rhyngddynt. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad yn dda ac maent yn siarad yn sensitif, mewn ffyrdd y maent yn deall. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn atgoffa plant i rannu gyda'u ffrindiau ac i aros tro yn amyneddgar. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn modeli ymddygiad effeithiol ac yn dangos parch tuag at ei gilydd a'r plant.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am anghenion a hoffterau bob plentyn a maent yn casglu gwybodaeth gan rieni wrth iddynt eu cofrestri. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau drwy ddilyn diddordebau a hoffterau'r plant. O ganlyniad, maent yn ymwybodol o gamau datblygu nesaf bob plentyn ac maent yn gweithredu'n effeithiol ar y camau nesaf yn eu taith dysgu. Mae gweithdrefnau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gryf. Mae'r ymarferwyr yn dilyn prosesau clir er mwyn adnabod a chyfeirio unrhyw blentyn sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol megis therapyddion llefaredd a'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi'n gyson. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o anghenion plant a sut i'w cefnogi'n effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth plant o gynhwysiant drwy ddathlu gwyliau fel Diwali, a chodi eu hymwybyddiaeth o awtistiaeth a byddardod yn ystod y flwyddyn. Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL). Mae cynllun yn ei le i weithredu hwn trwy'r lleoliad yn fisol er mwyn rhoi ymwybyddiaeth wrth hiliol i blant ac ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol gyda pharch a goddefgarwch yn rheolaidd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod eang o brofiadau amrywiol sy'n diwallu anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac maent yn darparu amrediad eang o adnoddau sy'n sbarduno dychymyg y plant yn gyson. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn mabwysiadu gweithgareddau i ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth da o'r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthynas hyfryd gyda'r plant, ac yn eu cymell i ddatblygu ystod eang o fedrau yn bwrpasol. Maent yn aml yn rhyngweithio gyda'r plant er mwyn ehangu eu medrau. Mae ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn ymyrryd yn amserol i atgyfnerthu'r dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd arbennig o dda o asesiadau ac arsylwadau manwl i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi ardaloedd dysgu a chwarae diddorol a phwrpasol tu fewn a thu allan, sy'n galluogi plant i ymarfer a chymhwyso eu medrau yn barhaus. Maent yn paratoi basgedi o lyfrau ym mhob ardal sy'n denu'r plant i ddewis llyfrau yn ddigymell. Wrth eistedd gyda'r plant yn mwynhau'r llyfrau a thrafod y lluniau mae ymarferwyr yn creu darllenwyr cynnar sy'n dwlu ar lyfrau. Maent yn modelu iaith yn barhaus ac yn gwneud defnydd effeithiol o ganeuon i ddatblygu medrau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac i greu marciau. Mae offer ysgrifennu ym mhob ardal gan gynnwys tu allan. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau modur mân, er enghraifft wrth beintio, dylino toes a defnyddio gefel. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau modur mawr yn llwyddiannus wrth ddefnyddio beiciau, dringo grisiau a neidio.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u hunaniaeth Gymreig yn addas drwy ddarparu gweithgareddau ac adnoddau priodol wrth ddathlu diwrnodau pwysig i'r Cymry. Maent hefyd yn canu caneuon a rhigymau traddodiadol yn rheolaidd.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio'n arbennig o dda ar annog gonestrwydd, tegwch, a pharch, gan sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd, eu hamgylchedd ac adnoddau, yn ofalgar. Mae ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn barhaus ac o ganlyniad, prin iawn yw'r gwrthdaro.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn gryf. Maent yn sicrhau bod prif ddrws i'r lleoliad ar gau ac yn rhoi mynediad i ymwelwyr drwy system drws â chamera. Ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt. Mae gweithdrefnau diogelwch megis yswiriant dilys yn eu lle.

Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda er mwyn sicrhau eu diogelwch. Maent yn gweithredu ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr yn effeithiol. Maent hefyd yn asesu risgiau yn dda, sy'n cynnwys mynd am dro o gwmpas y pentref, mynd i'r parc lleol ac i'r cae chwarae gyferbyn a'r lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn ymateb i faterion o ddiogelwch y plant ac i unrhyw achos sy'n codi, yn brydlon. Er enghraifft, maent yn monitro ac yn ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant a'r ymarferwyr yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn pe bai rheswm iddynt adael yr adeilad ar frys. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofrestr o bob plentyn ac ymwelwydd sy'n mynychu'r sesiynau ac yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael yn drwyadl. Mae arweinwyr yn sicrhau bod digon o ymarferwyr i fodloni disgwyliadau'r safonau, ac o ganlyniad, goruchwylir y plant yn effeithiol.

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu a chwarae yn dda. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant i gydweithio a chyfathrebu tu fewn a thu allan. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau yn addas ar gyfer y plant. Mae hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau effeithiol am eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar greu amgylchedd naturiol er mwyn creu naws glòs, cartrefol ac ymlaciol. Maent yn sicrhau bod yr holl adnoddau yn diddori ac yn dal sylw'r plant yn effeithiol. Mae'r adnoddau'n cael eu cadw ar lefel ymarferol i'r plant, ac o ganlyniad, maent yn gallu eu cyrraedd yn hawdd. Mae'r lleoliad yn daclus ac yn ddeniadol ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae'r tai bach a chyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn briodol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn gosod lles plant yn ganolog i bopeth a wnânt. Maent wedi llwyddo i greu awyrgylch ac ethos gofalgar, cyfeillgar a chynnes. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechreuad gorau posibl drwy ddarparu amgylchedd, adnoddau a gweithgareddau difyr. Mae'r awyrgylch gadarnhaol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Mae'r disgwyliadau uchel sydd gan arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith yn y lleoliad ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan yr arweinwyr, y rhieni a'r plant.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant cadarn o ddiogelwch ac mae polisïau addas wedi'u sefydlu i sicrhau bod y plant a'r ymarferwyr yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn rheoli ymarferwyr ac adnoddau yn effeithiol gan sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'u rolau a chyfrifoldebau. Maent yn sicrhau bod cymarebau cywir o ymarferwyr i blant. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwtio diogel yn cael eu gweithredu'n gywir. Mae'r arweinwyr yn arsylwi ar ymarferwyr wrth eu gwaith sydd yn bwydo'r sesiynau goruchwyliaeth rheolaidd gyda staff yn effeithiol. Maent yn darparu nifer o gyfleoedd o ansawdd uchel i ymarferwyr ddatblygu eu medrau ac ennill cymwysterau. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd addas o gyllid i gyflogi ymarferwyr ac i brynu adnoddau perthnasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar blant.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant y lleoliad yn effeithiol. Trwy weithgareddau hunanwerthuso pwrpasol, mae'r arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i gynllunio camau gweithredu synhwyrol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod ac yn gwella agweddau o'r ddarpariaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu perthnasoedd cryf gyda ystod o bartneriaid sydd o fudd i'r plant. Mae ganddynt gysylltiadau da â rhieni ac yn eu hysbysu'n barhaus am brofiadau eu plentyn trwy ap cyfrifiadur. Mae'r arweinwyr yn hygyrch, yn gefnogol, ac yn awyddus i gydweithio â rhieni i sicrhau bod plant yn hapus ac yn ymgynefino'n dda. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgol leol i gynorthwyo pontio ac yn gweithio'n agos gyda swyddog datblygu'r awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn elwa o'r cysylltiadau agos â'r gymuned leol ac mae hyn yn helpu arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a difyr ar gyfer y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2025